Annwyl……

Bob blwyddyn gofynnwn i bawb sydd wedi cwblhau cwrs yma yn ddiweddar gymryd rhan mewn arolwg i ddarganfod beth sy'n digwydd iddynt ar ôl iddynt adael y *brifysgol/coleg*. Roedd gennym ddiddordeb mewn unrhyw waith a/neu astudiaeth bellach roeddech yn ei wneud ar 12 Ionawr 2017. Nid ydym eto wedi clywed gennych chi.

Cliciwch ar y cyswllt hwn…… i gwblhau holiadur nawr……  Ni ddylai gymryd ond ychydig funudau i'w gwblhau - i'r mwyafrif o'r cwestiynau, dim ond rhoi tic mewn blwch sydd ei angen i ateb. Unwaith rydych wedi ei gwblhau, gwnewch yn si?r eich bod wedi cyflwyno eich holiadur wedi'i gwblhau drwy ddilyn y cyfarwyddiadau. Gallwch gwblhau'r holiadur ar-lein unrhyw bryd rhwng nawr a 7 Mawrth, ond cofiwch mai 12 Ionawr yw'r dyddiad sydd o ddiddordeb i ni er mwyn i ni allu cymharu gwybodaeth pawb.

Os oes angen cymorth arnoch i lenwi’r holiadur, neu os hoffech ei gael mewn fformat arall, byddwch cystal â chysylltu â ni yn……

Rydym wedi cynnwys rhagor o fanylion am sut mae'r arolwg yn gweithio a beth fydd yn digwydd i'r wybodaeth a ddarparwch *isod/ar y ddalen sydd ynghlwm/ar y cefn……*

Er eich bod chi wedi cwblhau eich cwrs, mae’r gwasanaeth gyrfaoedd ar gael i chi o hyd i’ch helpu gydag unrhyw faterion yn ymwneud â gyrfaoedd. Os hoffech gael cymorth i hybu eich gyrfa, yna mae croeso i chi gysylltu â ni yn……

Yn gywir……

**Ynghylch yr arolwg**

Mae'r arolwg rydym yn gofyn i chi gymryd rhan ynddo yn arolwg cenedlaethol o bawb sydd wedi cymhwyso yn ddiweddar mewn unrhyw brifysgol neu goleg Addysg Uwch (AU) yn y DU. Bydd yr wybodaeth a rowch hefyd yn ddefnyddiol iawn i ni yn y *brifysgol/coleg* i gynghori ein myfyrwyr presennol am y cyfleoedd a allai fod ar gael iddynt.

O blith y rheiny a enillodd gymwysterau ar draws y DU yn 2014/15, ymatebodd 79% i'r arolwg. O blith y rhain, dywedodd 72% eu bod yn gweithio a 6% arall eu bod yn gweithio ac astudio. Roedd 13% yn ymgymryd ag astudiaeth bellach yn unig. Tybiwyd bod 5% yn ddi-waith. Gellir gweld rhagor o ganlyniadau yn https://www.hesa.ac.uk/news/30-06-2016/sfr237-destinations-of-leavers.

Os na fyddwn yn clywed gennych yn fuan byddwn yn cysylltu â chi eto, dros y ffôn, felly rhowch wybod i ni os byddwch yn newid eich cyfeiriad neu rif ffôn, os gwelwch yn dda. Os na allwn gysylltu â chi o gwbl, efallai y byddwn yn ceisio cael gwybodaeth am yr hyn roeddech yn ei wneud gan rywun arall, naill ai yn y *brifysgol/coleg* neu rywun y gallwn gysylltu ag ef/hi drwy ddefnyddio'r wybodaeth gysylltu rydych chi wedi'i rhoi i ni yn flaenorol. Os nad ydych eisiau i ni wneud hyn, neu os nad ydych eisiau rhoi unrhyw wybodaeth i ni, wnewch chi ddweud wrthym os gwelwch yn dda. Isod mae'r manylion am yr hyn sy'n digwydd i'r wybodaeth ar ôl ei hanfon atom.

Bwriedir cynnal dilyniant i'r arolwg ymhen tair blynedd er mwyn i ni gael hyd yn oed mwy o wybodaeth am yrfaoedd cynnar y rhai sydd â chymwysterau AU. Efallai y gofynnir i chi gymryd rhan yn yr arolwg dilynol hwn hefyd, a fydd yn cael ei wneud gan sefydliad gwahanol. Gall yr arolwg hwn gael ei archwilio hefyd - hynny yw, ei wirio i sicrhau ei fod wedi'i wneud yn gywir. Os nad ydych eisiau cymryd rhan yn yr arolwg dilynol, nac eisiau i unrhyw un gysylltu â chi yn ystod archwiliad, rhowch wybod i ni os gwelwch yn dda. Gallwch hefyd roi gwybod i ni os nad ydych eisiau cymryd rhan yn yr arolwg dilynol drwy dicio'r blwch ar ddiwedd yr holiadur.

**Beth sy'n digwydd i'ch gwybodaeth**

Byddwch cystal â rhoi hysbysiad casglu eich sefydliad eich hun yma, ac yna dilynwch hwn gyda chyswllt i hysbysiad casglu'r AYAU fel y nodir isod.

Byddwn ni'n anfon gwybodaeth o'r arolwg hwn i'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (AYAU). Disgrifir y defnydd y bydd yr AYAU yn ei wneud o'ch ymatebion i'r arolwg yn fanwl yn y fan hyn https://www.hesa.ac.uk/about/regulation/data-protection/notices/dlhe-c15081.